Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cwynion

3 Mai 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 3 Ebrill, pan wnaethoch ofyn am:

> *O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fe hoffwn ofyn am y wybodaeth ganlynol ynghylch cwynion a wneir am Aelodau Senedd Cymru.*
>
> *a) Yn ystod y blynyddoedd 2020, 2021 a 2022, sawl cŵyn gafodd ei chyflwyno gerbron Comisiwn y Senedd ynghylch ymddygiad Aelodau Senedd Cymru?*
>
> *Os gwelwch yn dda, fe hoffwn y wybodaeth wedi ei rhannu fesul plaid wleidyddol, ac os yw'n bosib, wedi ei chategoreiddio yn ôl natur y gŵyn (camymddwyn rhywiol, trais, ymddygiad bygythiol, bwlio, er enghraifft)*
>
> *b) Ar gyfer y cwynion a nodir, beth oedd canlyniad unrhyw weithredu ar y cwynion hynny? Er enghraifft: Dim gweithredu pellach, ymchwiliad annibynnol, cyfeirio'r mater at yr heddlu, gwahardd aelod ac yn y blaen.*
>
> *Os oes angen rhagor o esboniad arnoch, mae croeso ichi gysylltu â mi. Fe fyddwn yn gwerthfawrogi petaech yn cadarnhau derbyn y cais hwn, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed gennych.*

Nid oes gan, Comisiwn y Senedd unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

Mae'r Comisiynydd Safonau'r Senedd yn darparu cyngor annibynnol a diduedd ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau o'r Senedd, ac mae'n ymchwilydd annibynnol

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

ar gyfer cwynion sy’n honni bod Aelodau o’r Senedd wedi torri unrhyw God, Protocol neu benderfyniad gan y Senedd sy'n berthnasol iddynt.

Er bod y Senedd yn awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf, nid yw'r Comisiynydd Safonau yn awdurdod cyhoeddus. Felly, nid yw o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu'r wybodaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd gennych ddiddordeb yn yr **Adroddiadau Blynyddol** sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd.

Yn gywir,

Buddug Saer

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais am ryddid gwybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu anfonwch lythyr i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN